Anfonwyd adroddiad annibynnol gan yr Athro Stephen Cushion o Brifysgol Caerdydd at yr Aelodau, sef adroddiad sy'n ymchwilio i sut mae'r prif ddarparwyr newyddion teledu (y Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus a Sky) yn adrodd materion polisi datganoledig ar eu prif fwletinau newyddion.

Bu i'r Athro Cushion a'i dîm ategu dadansoddiadau manwl o gynnwys darllediadau ym misoedd Mehefin a Gorffennaf 2021 gyda chyfweliadau ag uwch olygyddion o bob darlledwr i ddeall yn well y dewisiadau golygyddol a wnaethant. Dyma brif ganfyddiadau'r adroddiad:

- Yn bennaf o ganlyniad i Covid-19, **mae'r sylw a roddir i faterion datganoledig wedi gwella** o'i gymharu ag astudiaethau tebyg yn 2015 a 2016.
- Datgelodd cyfweliadau ag uwch olygyddion newyddion fod **ystafelloedd newyddion bellach yn gynyddol ymwybodol o adrodd am wahaniaethau polisi datganoledig ar newyddion rhwydwaith**.
- **Cytunodd yr holl olygyddion fod angen i adroddiadau ddarparu cyfarwyddyd fel bod cynulleidfaoedd yn deall a yw mater yn berthnasol dim ond i un neu rai o wledydd y DU**. Fodd bynnag, bu cydnabyddiaeth hefyd o'r heriau sydd ynghlwm wrth gofnodi cymhlethdod datganoli o ystyried y cyfyngiadau ar amser mewn bwletinau.
- Dangosodd y dadansoddiad a wnaed gan dîm yr Athro Cushion fod **datganoli yn ffactor a allai fod yn berthnasol mewn tua 40% o'r eitemau newyddion a aseswyd yn ystod yr astudiaeth**. **O'r rhain, cyfeiriodd tua 3 o bob 5 adroddiad at ddatganoli i ryw raddau, ac nid oedd 2 o bob 5 yn cynnwys unrhyw gyfarwyddyd ynghylch perthnasedd mewn gwahanol rannau o'r DU** – e.e. nid oedd cyfweliad â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg ynghylch mesurau covid mewn ysgolion yn cyfeirio at y ffaith mai dim ond yn Lloegr yr oedd y rheolau hynny'n berthnasol.
- **Darparodd adroddiadau newyddion teledu'r BBC lawer mwy o gyfeiriadau at bwerau datganoledig na darparwyr newyddion rhwydwaith eraill**, a rhoddodd newyddion ar-lein y BBC gyfarwyddyd mwy penodol ynghylch perthnasedd materion datganoledig na newyddion teledu.
- Yn gyffredinol, er gwaethaf cynnydd yn y sylw a roddwyd i'r sefydliadau datganoledig ers 2015, **mae cyfleoedd yn cael eu colli o hyd i esbonio penderfyniadau'r gwahanol Lywodraethau.**

Mae’r adroddiad wedi’i gyhoeddi ar-lein a gellir ei ddarllen yma:

Darlledu Teledu: data ac ymchwil - Ofcom